Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

**Cyfeirnod:** 3711A2023

**Dyddiad cyhoeddi:** Awst 2023

Annwyl Gydweithwyr

# Ymagwedd o ran archwilio Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru 2023

Yn dilyn fy llythyr 18 Mai, pan amlinellais fy ymagwedd at fy archwiliad cyfrifon y Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CJC), yn y llythyr hwn nodaf fy ymagwedd at agweddau archwilio perfformiad fy ngwaith.

## Fy ngofynion archwilio

Gan fod y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn cael eu hystyried yn gyrff llywodraeth leol o dan Ran 2 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004), mae'n ofynnol i mi:

- rhoi barn ar gyfrifon blynyddol (neu Ffurflen Flynyddol) y Cyd-bwyllgor Corfforaethol;
- bodloni fy hun bod gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol drefniadau priodol i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi cyfle i etholwyr ofyn cwestiynau neu gyflwyno gwrthwynebiadau yn ystod yr archwiliad; ac
- ystyried a oes unrhyw faterion sy'n dod i'm sylw y dylid eu dwyn i sylw'r cyhoedd a/neu a ddylwn wneud argymhellion ysgrifenedig o dan adran 25 Deddf 2004.

Gan fod y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol hefyd bellach yn cael eu henwi'n gyrff o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol hefyd i mi:

- asesu i ba raddau y mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy pan yn:

- gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny; a
- chynnal archwiliad o'r fath ar bob corff cyhoeddus o leiaf unwaith mewn cyfnod adrodd ac adrodd ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny i'r Senedd.

**Ymagwedd archwilio perfformiad**

Yn ddiweddar, cyhoeddais lythyr at y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn adlewyrchu ei gynnydd hyd yn hyn. Bydd fy archwilwyr yn parhau i gadw golwg ar gynnydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn ystod y flwyddyn. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod iddynt am unrhyw ddogfennau allweddol a byddant yn trefnu cyfarfod â chi yn ystod y flwyddyn i drafod cynnydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

## Ffi, tîm archwilio ac amserlen

Nodir y ffi amcangyfrifedig ar gyfer agwedd archwilio perfformiad fy ngwaith yn **Arddangosyn 1**. Rwyf hefyd wedi cynnwys y ffi amcangyfrifedig ar gyfer archwilio gwaith cyfrifon er mwyn i chi weld cyfanswm y ffi.

**Arddangos 1: ffi archwilio – mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2023, yn ôl maes gwaith archwilio**

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] |
|---|---|
| Archwilio cyfrifon | 1,764 |
| Gwaith archwilio perfformiad | 2,093 |
| **Cyfanswm y ffi** | **3,857** |

Os daw risgiau newydd i'r amlwg, efallai y bydd angen newidiadau i'm rhaglen gwaith archwilio ac o ganlyniad i'm ffi. Ni wnaf unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn **Arddangosyn 2**.

[1] Nodiadau: Mae'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn gyfyngedig i DAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch.

**Arddangosyn 2: fy nhîm archwilio**

| Enw | Swydd | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 07909 0882609 | derwyn.owen@archwilio.cymru |
| Jason Blewitt | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | 029 20320500 | jason.blewitt@archwilio.cymru |
| Non Jenkins | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 029 20320500 | non.jenkins@archwilio.cymru |

Gallaf gadarnhau bod aelodau fy nhîm i gyd yn annibynnol ar y Cyd-bwyllgor Corfforaethol a'ch swyddogion.

**Amserlen**

Fel y dywedais yn fy llythyr ym mis Mai, ein bwriad yw cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol erbyn diwedd mis Tachwedd 2023.

**Archwilydd Cyffredinol Cymru – Hysbysiad Prosesu Teg Archwilio Cyffredinol**

Gellir dod o hyd i'n hysbysiad prosesu teg archwilio cyffredinol ar ein gwefan. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych sut mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn prosesu gwybodaeth bersonol a gesglir mewn cysylltiad â'n gwaith.

Yr eiddoch yn gywir



**Derwyn Owen**

**Director – Financial Audit**